

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Y Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) ac N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformio ac Adnoddau),

761 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

762 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

763 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

764 CH2 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (CYF) –

Wrth gyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad, cyfeiriodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyflogaeth at y lefelau salwch ar gyfer salwch byrdymor a hirdymor gan ddweud bod y rhain yn 20% ac yn 80% yn y drefn honno. Roedd y prif resymau dros golli diwrnodau gwaith yn cynnwys straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith a phroblemau cyhyrsgerbydol. Gofynnodd y Cynghorydd Carroll, wrth gyfeirio at y ffigurau, am effaith ton Omicron COVID-19 ar lefelau staffio, gan ofyn a oedd ystadegau ar gael gan Awdurdodau Lleol eraill y gellid cymharu'r ffigurau hyn â nhw a pham y rhagorwyd ar dargedau Gyfarwyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, yn cael anawsterau wrth

No.

reoli'r absenoldebau a'r problemau hunanynysu o ganlyniad i'r pandemig, ond bod cymorth yn cael ei gaffael drwy asiantaethau. Cytunodd i ymchwilio i'r cais am ystadegau cymaradwy gydag ALLau eraill a dywedodd y byddai'n hybysbu'r Pwyllgor maes o law. O ran y ffigurau mewn perthynas â Chyfarwyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ac Adnoddau, dywedodd y byddai'r ffaith bod llai o staff cyfwerth ag amser llawn, llai o aelodau staff a nifer o staff rhan-amser yn y Gyfarwyddiaeth hon wedi effeithio ar y targedau.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am effaith COVID hir ar y Cyngor a'r effaith ar les staff. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol nad oedd yn ymddangos bod COVID hir wedi cael effaith sylweddol hyd yma, fodd bynnag, roedd nifer o brosiectau a mentrau lles wedi'u sefydlu a oedd ar gael i staff. At hynny, byddai gweminar wydnwch i staff yn cael ei chyflwyno dros yr wythnosau nesaf a oedd wedi'i datblygu i gynorthwyo staff ac i asesu sut mae'r pandemig wedi effeithio arnynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gellid anfon hyn hefyd at Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth hefyd fod y Cyngor wedi cael problemau staffio o ganlyniad uniongyrchol i amrywiolyn Omicron mewn nifer o feysydd, er enghraifft, y Gwasanaethau Amgylcheddol. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod yr arwyddion bellach yn dangos bod hyn yn sefydlogi.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, fe'i

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD Adroddiad Absenoldeb Salwch Chwarter 3 yn y dyfodol yn cynnwys manylion cymariaethau absenoldeb salwch ag Awdurdodau Lleol eraill.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y Cabinet yn cael gwybod am y trafodaethau yn y cyfarfod.
- (3) ESTYN llongyfarchiadau'r Pwyllgor ar yr holl waith a wnaed yn ystod y pandemig i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a holl staff yr adran.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet ei ystyried.
- (3) Rhoi gwybod am werthfawrogiad y Pwyllgor.

765 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Dechreuodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Cyflogeion drwy roi gwybod i'r Pwyllgor fod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch a wnaed mewn perthynas â threfniadau corfforaethol ar gyfer Diogelu ym mhob rhan o'r

No.

Cyngor ac i roi sicrwydd mewn perthynas â'r gweithgarwch diogelu a oedd yn digwydd.

Nodwyd bod argymhellion gweithgarwch archwilio yn cael eu rhoi i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol ac y byddent yn cael eu monitro i sicrhau bod y Polisi Recriwtio Corfforaethol Mwy Diogel yn cael ei weithredu'n gyson ac yn effeithiol.

Wrth gyfeirio at y cyfeiriad at bapurau cefndir, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r adroddiad diweddaraf ers mis Tachwedd 2020 yn cael ei ail-ddosbarthu i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

766 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD 2021 (CYF) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog Adran 151 sylw'r Aelodau at effaith COVID-19 mewn perthynas â gwariant ychwanegol a cholli incwm i'r Cyngor ac at oblygiadau amrywiol i'r gwasanaethau, yn enwedig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn adrodd ym mharagraff 2.15 yr adroddiad orwariant disgwylidig o £1.118m.

Ar hyn o bryd roedd y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn rhagweld amrywiad anffafriol o £1.5m yn erbyn cyllideb 2021/22 gyda'r adran Rheoli Gwastraff dan bwysau oherwydd costau cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod dull y gwasanaeth casglu ailgylchu wedi'i newid i ddull casglu wedi'i wahanu wrth y ffynhonnell er mwyn mynd i'r afael â'r duedd gynyddol hon mewn costau.

Wrth gyfeirio at dargedau effeithlonrwydd, roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn manylu ar yr holl dargedau arbedion ar gyfer 2021/22 ac er bod gwasanaethau'n gweithio ar gynlluniau ar hyn o bryd i fwrw'r targedau, rhagwelwyd y gallai fod diffyg o £170k.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Dr Johnson ynglŷn â'r posibilrwydd o gael grantiau pellach gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y swyddog ei bod yn bosibl y gallai'r Cyngor gael grantiau ychwanegol cyn diwedd y flwyddyn. Roedd y Cyngor wedi cael rhai grantiau addysg, ond roedd y rhain wedi bod ar lefel isel iawn.

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad a chyfeirnod y Cabinet.

No.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

767 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2021 (CYF) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf a dangoswyd manylion y cynlluniau yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro sylw at y Rhaglen Gwella Tai, gan ddweud, er y byddai cynlluniau'n cael eu darparu, efallai na fyddai rhai'n cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd disgwyl i adroddiad ar y Cynllun Busnes Tai nesaf gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2022.

Manteisiodd y Cynghorydd Dr Johnson ar y cyfle i ddiolch i'r swyddog am roi cymaint o fanylion â phosibl yn yr adroddiad ar sefyllfa bresennol y Cyngor. Gwnaeth y Pwyllgor ofyn am hyn yn y gorffennol. Fodd bynnag, gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson am fwy o wybodaeth am Raglen Grant Trechu Tlodi Heol Holltwn a Phrosiect To Lloches Dwyrain Ynys y Barri. Cytunodd y swyddog i drefnu i'r wybodaeth hon gael ei hanfon at yr Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

O ran cynyddu costau cyfalaf, nodwyd bod nifer o ffactorau gan gynnwys prinder cynnyrch a allai effeithio ar waith Cyfalaf a'r ffaith ei bod yn fater Cymru gyfan, fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R cynnydd a wnaed ar Raglen Gyfalaf 2021/22 fel y'l cynhwyswyd yn yr adroddiad a chyfeirnod y Cabinet.

(2) BOD gwerthfawrogiad y Pwyllgor o'r holl waith a wnaed yn cael ei estyn i'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 Dros Dro a holl staff yr adran.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi gwybod am werthfawrogiad y Pwyllgor.

768 ARCHWILIO CYMRU: GWAITH PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR – CYNGOR BRO MORGANNWG (RG) –

Dechreuodd Mr Ian Phillips, swyddog Archwilio Cymru, drwy ddweud bod yr Adolygiad wedi canolbwyntio ar archwilio a oedd trefniadau'r Cyngor gyda'r Trydydd Sector yn cefnogi'r Cyngor yn effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau adfer strategol. Roedd yn adolygiad cymharol lefel uchel ac yn gyffredinol, daeth canfyddiadau'r adroddiad i'r casgliad fod trefniadau'r Cyngor yn cefnogi ei ffordd

No.

bresennol o weithio gyda'r Trydydd Sector, ond y gellid ei chryfhau yn awr er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r berthynas i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor.

Nododd yr adroddiad bedwar Cynnig ar gyfer Gwella:

C1 - Dylai'r Cyngor ailystyried y rhestr wirio a nodir yn Atodiad 1 adroddiad Archwilio Cymru, yn enwedig yr adrannau canlynol:

- Gweledigaeth
- Strategaeth Gorfforaethol
- Compact
- Deall ymgysylltiad â'r Trydydd Sector
- Gwasanaethau dylunio
- Hyfforddiant
- Adolygiadau perfformiad.

C2 - Yn rhan o'r adolygiad o'r compact, dylai'r Cyngor nodi sut y mae am weithio gyda'r Trydydd Sector i helpu i gyflawni ei flaenoriaethau adfer strategol a sut y gall adeiladu ar y gwaith cadarnhaol yn ystod y pandemig, a dylai ystyried sut y gall gryfhau ei ffordd o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

C3 - Dylai'r Cyngor ystyried lefel yr adnoddau a'r buddsoddiad sydd ei hangen i sicrhau ffordd fwy cydweithredol o weithio gyda'r Trydydd Sector a nodi hyn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolog.

C4 - Dylai'r Cyngor ystyried y camau y gall eu cymryd i helpu'r Trydydd Sector i addasu i ffordd fwy cydweithredol o weithio.

Yn ystod y drafodaeth mewn perthynas â'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd y dylid cryfhau rôl Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, yn ei farn ef, ac y dylid cyflwyno Adroddiad Blynyddol GGM (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) i'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol i'w ystyried. Ateggodd y Cynghorydd Dr Johnson y sylwadau hyn, gan ddweud ei bod yn ymddangos nad yw Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn ystyried llawer o fusnes a'i bod yn bwysig i'r Pwyllgor Craffu fod yn gwbl ymwybodol o waith GGM. Cydnabu'r Pwyllgor fod y Trydydd Sector hefyd wedi bod dan bwysau a bod y capasiti wedi bod yn broblem a'i bod yn bwysig i GGM, sefydliadau / cynrychiolwyr eraill o'r Trydydd Sector a'r Cyngor gydweithio'n fwy cydweithredol a gwrthrychol.

Dywedodd y Cynghorydd L. Burnett, yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, fod menter gymdeithasol yn rhywbeth yr oedd y Cyngor wedi'i deall gydag enghreifftiau o hyn yn cynnwys Big Fresh Company a'r Pafiliwn ym Mhier Penarth. Roedd yr Oriol Gelf Ganolog hefyd yn ceisio defnyddio egwyddorion y Trydydd Sector.

Croesawodd y Cynghorydd Sivagnanam y cyfle i ystyried ffyrdd pellach y gellid eu sefydlu o ymgynghori ac ymgysylltu â sefydliadau a chymunedau Bro Morgannwg.

No.

Tynnodd y Pennaeth Trawsnewid Busnes a Pholisi sylw at ymateb y Cyngor fel y'i nodir yn yr adroddiad, gan ddweud bod y cyfeiriad at y Trydydd Sector yn ymwneud â phob agwedd ar y Trydydd Sector, y sefydliadau mwy a grwpiau cymunedol llai a phwysigrwydd cyd-ddealltwriaeth a pharch. Dywedodd hefyd y byddai'r cynigion hefyd yn golygu datblygu'r maes gwaith hwn ac yn arbennig sut y byddai angen i'r perthnasau weithredu. Byddai cyfleoedd hefyd i'r Pwyllgor ddylanwadu ar y gwaith. Roedd gwaith hefyd wedi dechrau gyda GGM i adolygu'r Compact rhwng GGM a Chyngor Bro Morgannwg. Soniodd y Cyngorydd Dr Johnson am bwysigrwydd deall y swyddogaethau statudol sydd eu hangen a dywedodd y cydnabyddir y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn sicr o ymdrin ag agweddau o'r fath.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i fod yn ofalus ynghylch ystyr a diffiniad y term sector gwirfoddol o ystyried nifer y sefydliadau y gallai'r derminoleg hon fod yn berthnasol iddynt.

Dywedodd cynrychiolydd Archwilio Cymru i gloi fod sylwadau'r Pwyllgor wedi rhoi sicrwydd iddo gan mai un o fwriadau'r adroddiad oedd galluogi trafodaethau o'r fath. Roedd yn bwysig sicrhau nad oedd y broses yn rhy fiwrocraidaidd, a chydabu ei bod yn fater hirdymor gydag angen i gael sgysiau gyda GGM, er cydnabu eto y byddai'n rhaid cynnwys cyrff eraill nad oeddent yn eistedd dan GGM hefyd.

Roedd pawb o'r farn bod hwyluso'r sgwrs yn iach er cydnabuwyd y byddai angen gwneud llawer o waith i gyflawni'r nodau a gynigir.

Roedd y Cadeirydd yn awyddus i sylwadau'r Pwyllgor gael eu trosglwyddo i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ac roedd am ofyn i GGM gyflwyno eu Hadroddiad Blynyddol a chyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol cyn gynted â phosibl, ac fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o adolygiad Archwilio Cymru o waith partneriaeth y Cyngor gyda'r trydydd sector (Atodiad A i'r adroddiad) ac ymateb y Cyngor i'r adolygiad a chynigion Archwilio Cymru ar gyfer gwella fel y nodir yn yr adroddiad.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor fel y'u trafodwyd yn y cyfarfod yn cael eu cyfleu i gyfarfod Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 7 Chwefror.

(3) BOD Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a gyflwynir i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn cael ei adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor hwn hefyd a bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor hwn dderbyn yr adroddiad presennol ynghyd â chyflwyniad cyn mis Mai 2022.

(4) Y dylid cyfeirio'r adroddiad, gan gynnwys y sylwadau a drafodwyd yn y cyfarfod, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo i'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi gwybod i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol am farn y Pwyllgor hwn.
- (3) I'r Pwyllgor ei ystyried.
- (4) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

769 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG –
ASESIAD LLESIANT DRAFFT (RG) –

Nododd yr adroddiad fod yr Asesiad Lles yn ddyletswydd statudol a osodir ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyda'r Asesiad Lles yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn rhan o'r broses ymgynghori sy'n ffurfio'r ail asesiad a gynhelir.

Rhodddwyd cyflwyniad Powerpoint i'r Pwyllgor i gyd-fynd â'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen i'r Asesiad Lles ystyried cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn ardal a rhoi dadansoddiad o gyflwr lles yr ardal gyfan ac ar gyfer ardaloedd cymunedol penodol. Roedd y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid BGC i gynhyrchu'r Asesiad a'r gobaith oedd y byddai'n adnodd defnyddiol i sefydliadau a'r Cyngor yn y Fro. Cynhaliwyd ymgyrch "Amser Siarad" i gael barn a sylwadau am fywyd ym Mro Morgannwg a chafwyd ymateb da gydag 83% naill ai'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar Fro Morgannwg fel lle i fyw. Yn ogystal â'r arolwg, roedd canfyddiadau ystod o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor, partneriaid BGC ac eraill, er enghraifft y Comisiynydd Plant, wedi llywio'r Asesiad Lles.

Yn ogystal â'r ffynonellau ymgynghori, roedd yr Asesiad Lles hefyd wedi defnyddio ystod o ddata, ymchwil a thystiolaeth genedlaethol a lleol ac roedd dadansoddiad o'r wybodaeth wedi'i nodi mewn cyfres o adroddiadau (ar gael ar wefan y Cyngor) a oedd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Asesiad Lles ac yn adrodd hanes profiadau lles ym Mro Morgannwg. Roedd yr Asesiad Lles yn broses barhaus a byddai tystiolaeth bellach wrth symud ymlaen yn cael ei chynnwys a byddai canfyddiadau'r Asesiad yn cynnig fframwaith i bartneriaid BGC ddatblygu'r Cynllun Lles. Nodwyd bod rhaid cyhoeddi'r Asesiad Lles cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 a bod rhaid ymgynghori â nifer o ymgynghoreion statudol, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu dynodedig ar gyfer y BGC.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried nifer o gwestiynau, er enghraifft, a yw'r Asesiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, a oedd y Pwyllgor yn cytuno â'r materion allweddol, a yw'n adlewyrchu profiadau a beth ddylai'r BGC ganolbwyntio arno yn y dyfodol? Soniodd y Cynghorydd J.W. Thomas am bwysigrwydd

No.

defnyddio'r holl ddata i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus. Roedd y Cynghorydd Dr Johnson yn awyddus i ddeall yr hyn a ddysgwyd o gam cyntaf y gwaith a gwaith y BGC dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth gydnabod anferthedd y dasg, awgrymodd y Cynghorydd Sivagnanam y byddai canolbwyntio ar ardaloedd penodol ar y tro yn fwy hylaw yn ogystal â chydabod bod y Cyngor yn un o nifer o bartneriaid yn y broses. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig ystyried sut y byddai llwyddiant yn cael ei fesur. Cytunodd y Cadeirydd â'r awgrym o ganolbwyntio ar themâu / ardaloedd penodol a hefyd yr angen i gynnwys mwy a mwy o randdeiliaid tra'n cydnabod y gwaith sylweddol yr oedd ei angen.

Dywedodd y Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth fod angen gwaith ar y cyd ond bod angen i bob sefydliad edrych ar ei gyfraniad ei hun hefyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb, atebolrwydd a dangos cynnydd yn cael eu datblygu.

I gloi, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am gyflwyniad eglurol iawn ac fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R Aseiad Llesiant drafft a hysbysu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o farn y Pwyllgor, fel y trafodwyd yn y cyfarfod, fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol.

(2) BOD y cyflwyniad PowerPoint a ddarparwyd yn y cyfarfod, ynghyd â dolen i'r adroddiad, yn cael eu dosbarthu i holl Aeoldau'r Pwyllgor a'r Cyngor er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er gwybodaeth i'r Aeoldau.